Rhaglen Sgiliau Hyblyg:

Sgiliau Allforio

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Trosolwg

Y Rhaglen Sgiliau Hyblyg: Mae'r rhaglen hon wedi'i chynllunio i ddarparu cymorth ariannol i fusnesau yng Nghymru sy'n dymuno gwella eu gallu i allforio eu cynnyrch a'u gwasanaethau. Mae'r rhaglen wedi'i hanelu at y busnesau hynny sy'n allforio ar hyn o bryd neu sy'n bwriadu dechrau allforio. Yn yr hinsawdd ansicr sydd ohoni, efallai y bydd llawer o fusnesau'n cael eu gorfodi i ddatblygu arbenigedd a gwybodaeth allforio.

Mae'r meysydd hyfforddi a gefnogir yn cynnwys: Cyllid, Gwerthu a Marchnata, Prosesau a Gweithdrefnau Tollau, Prosesau Allforio, Ymwybyddiaeth o'r Farchnad a Chymorth Arbenigol (ceir rhestr lawn ac enghreifftiau o hyfforddiant yn nhabl 1). Mae'r rhain yn bynciau sydd wedi'u hamlygu mewn nifer o adroddiadau Sgiliau.

Gwahoddir ceisiadau gan gwmnïau o unrhyw sector ac unrhyw le yng Nghymru, cyhyd â bod yr hyfforddiant y gwneir cais amdano yn cael ei gynnwys yn un o'r meysydd pwnc a grybwyllwyd uchod ac yn y tabl isod. Gall y cyfle hwn, sy'n cyd-fynd â chymeradwyaeth y Rhaglen Sgiliau Hyblyg sy'n llywodraethu, gynnig cymorth o hyd at 50% o'r hyfforddiant sy'n dod o dan un o'r meysydd hyfforddiant a restrwyd, hyd at gyfanswm o £25,000 o gyfraniad gan Lywodraeth Cymru.

Cymhwysedd:

- Mae'r cynllun yn agored i gyflogwyr (solfent) yng Nghymru (o unrhyw sector ac unrhyw ardal yng Nghymru).
- Mae'n rhaid i'r hyfforddiant ddarparu sgiliau sy'n datblygu gallu o ran allforio, cael ei gynnwys yn un o'r meysydd pwnc a grybwyllir yn y tabl isod a bod yn achrededig neu fodloni safon diwydiant.
- Mae'n rhaid i gwmnïau sy'n ymgeisio ymrwymo i ryddhau staff i ymgymryd â hyfforddiant a gymeradwywyd cyn diwedd mis Mawrth 2023.
- Gall pob busnes wneud un cais i'r rhaglen hon bob blwyddyn.
- Rhoddir y cyllid yn ôl disgresiwn a Llywodraeth Cymru fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch cymhwysedd.

Cyfle:

- Bydd cwmnïau y mae eu cais yn llwyddiannus yn cael swm penodedig o gyllid, sef 50% o'r costau hyfforddiant cymwys – bydd y cyllid yn cael ei dalu'n ôl-weithredol, ar ôl cwblhau'r hyfforddiant.

Y broses:

- Gellir gwneud cais am ffurflen gais drwy'r cyfeiriad e-bost canlynol - DFESRM@llyw.cymru.
- Ffurflen gais fer yw hon – ei diben yn syml yw cael gwybodaeth hanfodol oddi wrthych chi fel y cyflogwr er mwyn ichi wneud hawliadau llwyddiannus yn erbyn eich dyraniad posibl.
- Bydd y ffurflen yn cael ei hanfon at yr ymgeisydd drwy e-bost, ynghyd â dogfen hunanasesu ategol (sy'n ceisio gwybodaeth am ddull gweithredu'r cwmni a'i

ymrwymiad i ddatblygu ei weithwyr). Dylai'r ddwy ddogfen gael eu cwblhau a'u dychwelyd i'r un cyfeiriad e-bost (uchod).

- Bydd y cais yn cael ei asesu a bydd penderfyniad yn cael ei wneud cyn pen 10 diwrnod gwaith.
- Os caiff ei gymeradwyo, bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn Llythyr Dyfarnu Grant a fydd yn cadarnhau pa gyrsiau hyfforddiant yn y cais sydd wedi'u cymeradwyo a'r cyllid a ddyfarnwyd. Yna, gall yr ymgeiswyr archebu lle i'r staff ar y cyrsiau a gymeradwywyd. ***(Sylwch na ddylid cychwyn cytundeb â darparwr hyfforddiant hyd nes y ceir cadarnhad bod y cais wedi'i gymeradwyo).***
- Mae'r ymgeiswyr yn rhydd i ddewis unrhyw ddarparwr/darparwyr hyfforddiant ardystiedig.
- Caiff y cyllid ei dalu'n ôl-weithredol. Unwaith y bydd unigolion wedi cwblhau'r hyfforddiant a gytunwyd yn llwyddiannus (rhaid dangos hynny ar ffurf tystysgrif arholiad neu gadarnhad gan y darparwr hyfforddiant), bydd yr ymgeiswyr yn gallu hawlio'n ôl 50% o gost yr hyfforddiant / cwrs (*nid yw'r costau yn cynnwys teithio a chynhaliaeth na TAW).

Tabl 1:

Meysydd Hyfforddiant a Gymeradwywyd Ymlaen Llaw		
Cyfeirnod	**Pynciau Hyfforddiant**	**Enghreifftiau**
1	Cyllid	*Dulliau talu, TAW, prisio nwyddau, masnach a chyllid rhyngwladol.*
2	Gwerthu a Marchnata	*Marchnata rhyngwladol, datblygu gwerthiant tramor, llwybrau i'r farchnad, dewis asiantau a dosbarthwyr, e-fasnach.*
3	Y Prosesau a'r Gweithdrefnau o ran Tollau	*INCOTERM, dogfennaeth, dosbarthiad nwyddau, gweithdrefnau mewnforio, cyfraddau ffafraethol, rheolau tarddiad, rhyddhad tollau, trin nwyddau peryglus.*
4	Prosesau Allforio	*Gweithredwr economaidd awdurdodedig, trwyddedau allforio, cyflwyniad i allforio, deall allforio, hanfodion allforio.*
5	Ymwybyddiaeth o'r Farchnad	*Cynnal busnes mewn marchnad, e.e. Ffrainc, Tsieina neu'r Emiraethau Arabaidd Unedig, Allforion Gwyddor Bywyd yn UDA, diwylliant busnes.*
6	Allforio Arbenigol	*Rheoli risg, diogelu eiddo deallusol, rheoli risg o ran arian cyfred.*
7	Arweinyddiaeth a Rheoli	*Cynllunio; cyfathrebu; gwneud penderfyniadau; dirprwyo; datrys problemau; ysgogi staff; meithrin tîm; sgiliau rhyngbersonol; rheoli prosiectau; rheoli amser; rheoli straen; blaenoriaethu; negodi; rheoli ymddygiad; rheoli cadwyni cyflenwi*

Bydd tîm allforion Llywodraeth Cymru yn hapus i gynnig cyngor / trafod eich gofynion, os ydych yn ei chael yn anodd dod o hyd i ddarparwyr hyfforddi addas.

Gellir gweld trosolwg o'r holl feysydd a gefnogir o dan y Rhaglen Sgiliau Hyblyg ar Borth Sgiliau Busnes Cymru.